… ac Ati

Y Doethion – Cymeriadau Oesol Gyfoes: *Journey of the Magi* – James Jacques Joseph Tissot (1836-1902) a *The Adoration of the Magi* – Peter Paul Rubens (1577-1640)

Yn ôl ysgolheigion ‘roedd y Doethion – y Sêr-ddewiniaid – yn debyg iawn, ym myd crefyddol y Persiaid, i’r hyn oedd Offeiriaid i’r grefydd Iddewig. Rhan o’u gwaith oedd astudio’r sêr, ac fe dynnodd un seren eu sylw, a dilyn honno a’u harweiniodd i Fethlehem at y Gair yn Gnawd.

Nid diben ynddo’i hyn oedd astudio’r sêr i’r Sêr-ddewiniaid. Astudient y sêr er mwyn cael arweiniad i fyd deall a doethineb. Dyheu, mae’n debyg oedd un o nodweddion mawr eu cyfnod; nid yr Iddewon yn unig a ddisgwyliai am Feseia ond ‘roedd y byd yn disgwyl, yn dyheu am Un i’w gwared, gan gynnwys y Sêr-ddewiniaid.

Gofid y Sêr-ddewiniaid. Gofid oesol ydyw. Pobl oeddent yn gofidio am gyflwr y byd. Os mai offeiriaid o fath oeddent, mae’n amlwg eu bod wedi rhoi o’u hamser a’u hegni i feddwl am gyflwr y byd a thynged y ddynoliaeth. Fe ddaeth yr ymwybyddiaeth o wacter a cholled, a oedd y profiad cyffredin ar bob llaw, yn faich trwm arnynt. Ond, syllwch ar y llun (*Journey of the Magi* – James Jacques Joseph Tissot (1836-1902)) Maent yn teithio! Maent ar eu ffordd i Fethlehem; pobl oedd y rhain a droes eu gofid yn ofal wrth geisio a chwilio. Fe esgorodd y gofid ar ddisgyblaeth, menter a dyfeisgarwch. Cawsant eu harwain, ond nid rhwydd nac union bu’r arweiniad. Bu llwybr y seren yn hir, a garw, a blin. Yn sicr bu siom, methiant a dioddefaint ar y ffordd. Bu’n rhaid wrth fenter i ddechrau’r daith, a bu galw am y dal-i-fyndrwydd mwyaf anhygoel i’w chwblhau.

Gorfoledd y Sêr-ddewiniaid. (Llun: *The Adoration of the Magi* – Peter Paul Rubens (1577-1640)) Rhaid yw mynegi gorfoledd y cyrraedd, y cael: mae’r Doethion yn addoli. Mae’r gwir addolwr bob amser yn dymuno rhoi ei hun ond rhaid defnyddio cyfryngau i ddangos hynny. Rhoi aur, thus a myrr a wnaeth y tri hyn; rhoi pethau. Dyna’r cam cyntaf, a’r un hawdd gan amlaf! Arwain y cam cyntaf at y nesaf ac ymlaen i’r nesaf wedyn: rhoi ein hamser, ein hegni, ein calon, ein cwbwl.